

PWYLLGOR	Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn
DYDDIAD	Gorffennaf 13eg 2016
TEITL	Tirweddau'r Dyfodol Cymru
PWRPAS	Gwybyddu Aelodau
AWDUR	Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn
ARGYMHELLIAD	Derbyn yr Wybodaeth

1.0 CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth am y sefyllfa ddiweddaraf o ran yr Adolygiad o Dirweddau Dynodedig a gomisiynwyd gan Llywodraeth Cymru.

2.0 YR ADOLYGIAD O DIRWEDDAU DYNODEDIG

2.1 Yn 2014 sefydlwyd Panel o 3 i gynnal Adolygiad o Dirweddau Dynodedig Cymru, sef Yr Athro Terry Marsden, Dr Ruth Williams a Mr John Lloyd Jones.

2.2 Roedd Cam 1 o'r Adolygiad yn edrych ar bwrpas y tirluniau dynodedig a manteision/ anfanteision categoreiddio Tirluniau Dynodedig Cymru o dan un math o ddynodiad. Roedd Cam 2 o'r Adolygiad yn ystyried y modd mae'r Parciau Cenedlaethol a'r AHNE yn cael eu rheoli a'u llywodraethu.

2.3 Gwnaed sylwadau ar yr Adolygiad gan AHNE Cymru, Awdurdodau y Parciau Cenedlaethol a nifer o sefydliadau, elusennau, a chyrrff cyhoeddus a phreifat eraill (yn cynnwys y Cydbwyllgor hwn). Yn ogystal, cynhaliodd y Panel nifer o gyfarfodydd trafod gydag unigolion a sefydliadau.

3.0 ADRODDIAD YR ADOLYGIAD

3.1 Cyflwynwyd Adroddiad Terfynol i Lywodraeth Cymru yn Hydref 2015. Roedd yn Adroddiad swmpus yn cynnwys cyfanswm o 69 o Argymhellion manwl. Roedd rhai o'r argymhellion yn cyfeirio at faterion egwyddorol a gweithredu y gallesid fod wedi eu cynnwys mewn Atodiad.

3.2 Ar ôl derbyn yr Adroddiad Terfynol bu i Lywodraeth Cymru benderfynu sefydlu rhaglen ddatblygu **Tirweddau Dynodedig Cymru**. Pwrpas y rhaglen yma fyddai ystyried yr Adroddiad a materion eraill perthnasol fel Deddf Llesiant Cenhedaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

4.0 TIRWEDDAU'R DYFODOL CYMRU

4.1 Penodwyd yr Arglwydd Dafydd Ellis-Thomas yn Gadeirydd ar y broses hon a chynhaliwyd cyfarfod cychwynnol gyda rhanddeiliaid amrywiol yng Nghaerdydd yn mis Tachwedd 2015. Yn dilyn hynny sefydlwyd Grŵp Datblygu (swyddogion ac aelodau yn bennaf) a Gweithgor (academyddion a grwpiau arbenigol yn

bennaf). Penderfynwyd edrych ar 4 maes penodol o ran y Tirweddau Dynodedig sef:

- **Gweledigaeth**
- **Llywodraethau/ Rheoli**
- **Adnoddau**
- **Economi**

4.2 Yn dilyn hynny mae proses eithaf manwl o hyfforddiant, datblygu syniadau, trafod opsiynau a phenderfynu ar ddewisiadau wedi ei dilyn.

4.3 Penllanw rhaglen Tirweddau'r Dyfodol Cymru oedd cyfarfod o Siambr Sialens yng Nghaerdydd ar yr 20fed o Fehefin. Yn y cyfarfod hwn penderfynodd yr holl aelodau o'r Rhaglen Ddatblygu ar Weledigaeth ar gyfer y Tirweddau'r Dyfodol (gweler isod):

“Cymru fel cenedl yn gwerthfawrogi ei thirluniau am yr hyn y maent yn ei ddarparu i bobol Cymru a manau eraill. Tirluniau dynodedig Cymru yn cyflenwi oddi mewn, a thu draw, i’w terfynnau er mwyn gwella eu hadnoddau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol a darparu buddion lles eang ar gyfer cenhedlaethau’r presennol a rhai’r dyfodol tra yn gwella y rhinweddau sy’n eu gwneud yn unigryw yn ogystal ac arbennig.”

4.4 Hefyd gosodwyd gwahanol fesurau, dan y 4 testun (Yr Weledigaeth, Llywodraethau, Adnoddau a'r Economi) mewn trefn blaenoriaeth o ran gweithredu – Tymor Byr, Canolig a Hir. Cafodd adnoddau digonol i AHNE ei adnabod fel rhan o'r broses hon.

4.5 Y cam nesaf fydd crynhoi holl gasgliadau ac argymhellion y Rhaglen Ddatblygu at ei gilydd gan y Cadeirydd a'u cyflwyno i'r Ysgrifennydd Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig, Lesley Griffiths, am ystyriaeth bellach.

5.0 ARGYMHELLIAD

5.1 Derbyn yr wybodaeth